| GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR SIOPAU BACH<br><br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 08.30 ar 15 Hydref 2013 yn Nhŷ Hywel |
|---|

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC (JFS) | Cadeirydd |
| Elin Jones AC (EJ) | Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol |
| Rhodri Glyn Thomas AC (RGT) | |
| Eluned Parrott AC (EP) | |
| Russell George AC (RG) | |
| Simon Stranks (SS) | Janet Finch-Saunders AC |
| Mair Roberts (MRR) | Ysgrifennydd |
| Shane Brennan (SB) | ACS |
| Laura Doel (LD) | Alun Davies AC |
| Phil Bale (PB) | Julie Morgan AC |
| Alexander Phillips (AP) | William Powell AC |
| Mark Roberts (MR) | The Co-operative Group |
| David Yates (DY) | Blakemore |
| Janet Read (JR) | Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Manwerthu |
| Sophie Traherne (ST) | Swyddfa Grŵp Ceidwadol |

**1.YMDDIHEURIADAU**

Keith Davies AC

**2.CYFLWYNIAD**

Croesawodd JFS bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ac amlinellodd ei bwysigrwydd yn codi materion polisi a allai gael effaith ar siopau bach a dylanwadu arnynt, ac amlygodd y sector fel elfen allweddol i economi Cymru. Rhoddodd JFS hefyd amlinelliad o'i gyrfa hir yn y sector manwerthu annibynnol.

**3.CYFLWYNIAD GAN SHANE BRENNAN, ACS**

Rhoddodd SB o'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra gyflwyniad ar y cyfraniad a wneir gan y sector siopau cyfleustra i economi Cymru, a oedd yn cynnwys ffigurau ar nifer y siopau a swyddi yn y sector yng Nghymru. Eglurodd hefyd gydweithrediad ACS gyda'r Cydffederasiwn Manwerthwyr Annibynnol, yr oedd yn gobeithio y bydd hefyd yn gallu cymryd rhan yn nweithgareddau'r Grŵp Trawsbleidiol.

Dilynwyd cyflwyniad SB gan gynnig o ran pa bynciau polisi y dylai'r Grŵp eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys: costau eiddo, parcio a materion cynllunio.

*Y Gymraeg*

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd JFS i SB am nifer y perchenogion siopau cyfleustra a'r gweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Atebodd SB fod 27% o berchenogion siopau cyfleustra yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Rhoddodd MR wybod i'r Grŵp Trawsbleidiol am waith y Co-Operative Group gyda Chomisiwn  y Gymraeg i ddarparu pecyn cymorth iaith Gymraeg i gyflogeion.

*Peiriannau arian parod*

Mynegodd RGT bryderon ynghylch peiriannau ATM sy'n codi ar gwsmeriaid, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Sicrhaodd MR a SB y Grŵp nad yw manwerthwyr yn gyffredinol yn dymuno codi ar gwsmeriaid ar gyfer y defnydd o beiriannau ATM.

*Parcio*

Trafododd y Grŵp y manteision a'r anfanteision o orfodaeth a darpariaeth parcio. Amlygodd EJ lwyddiant cynllun gorfodaeth parcio yn Aberystwyth a rhybuddiodd efallai nad darpariaeth parcio 'am ddim i bawb' yw, o reidrwydd, y ffordd orau i gwsmeriaid allu cael mynediad at siopau lleol. Siaradodd SB am waith y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd mewn perthynas â pharcio yng nghanol trefi, ac awgrymodd y gallai'r sefydliad hwn gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

*Cynllunio*

Mynegodd LD ei phryderon ynghylch archfarchnadoedd sy'n cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn ymyl y dref neu y tu allan i'r dref ar y sail y bydd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu creu ond nad oes unrhyw fwriad o greu siop ar y safle hwnnw, gan nodi enghreifftiau o Flaenau Gwent.

Yn dilyn y drafodaeth, **CYTUNWYD** y byddai ACS yn dosbarthu cyflwyniad SB i'r Grŵp Trawsbleidiol.

## 4.SGILIAU

Amlinellodd JR ymgyrch 'Stryd Fawr Ffyniannus' yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru i annog manwerthwyr i wella eu sgiliau. Eglurodd ei bod yn anodd annog manwerthwyr i gymryd rhan yn y cynllun.

Gofynnodd EP i JR am ei barn ar beth oedd yn rhwystro manwerthwyr rhag manteisio ar y hyfforddiant a ddarperir. Dywedodd JR fod y rhesymau'n cynnwys diffyg amser, dim digon o staff yn y siop, a bod yn anghyfarwydd â gwella sgiliau. Pwysleisiodd JR fod manwerthwyr yn fwy tebygol o ymateb i dystiolaeth gan fanwerthwyr eraill o fanteision y cynllun nag i'r Academi.

## 6. BLAENORIAETHAU AR GYFER Y GRŴP

Cafodd pynciau cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y dyfodol eu trafod a'u **CYTUNO**. Roedd y pynciau hyn yn cynnwys:

- Enghreifftiau o arfer gorau gan fanwerthwyr

- Cynllunio
- Sgiliau
- Dydd Sadwrn Busnesau Bach